Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 23 Tachwedd 2015 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Anne Roberts (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw, Ken Hawkins, Menna Jones, Simeon Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis a Geraint Woolford;
hefyd Bobby Feeley, Cynghorydd Sir.

113. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngr. Stephen Beach, June Derry, Rosie Hughes-Moseley, Heather Williams ac Emrys Wynne.

114. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb personol a/neu ariannol yn yr eitemau busnes.

115. YR HEDDLU

Cafwyd adroddiad yr Heddlu gan yr Arolygydd Gareth Jones a ddiweddarodd yr aelodau ynghylch troseddau gyrru, dwyn o siopau a cham-drin cyffuriau. Mae gyrru gwrthgymdeithasol yn parhau'n broblem yn ardal y Park Place a chafodd ceir eu meddiannu yn dilyn cyflwyno hysbysiadau Adran 59. Gofynnodd aelodau gwestiynau am y system un ffordd ar Lôn Dogmael, y terfyn cyflymder ar ffordd gyswllt Glasdir a gwirfoddolwyr cymunedol. Mae rhai unigolion problemus sy'n achosi pryderon yn y gymdogaeth. Troseddau dwyn o siopau – mae'r Heddlu wedi adnabod dyn a dynes o ardal Wrecsam yng nghyswllt hyn. Bu timau cydymffurfio â rheolau mewnfudo yn yr ardal yn ddiweddar yn gwirio gwahanol leoliadau. O ran trwyddedu, hysbysodd yr Arolygydd Jones fod tafarnau'r dref yn cael eu rheoli'n dda ac yn gyffredinol nid oes problemau – bydd heddlu ar batrol dros gyfnod y Nadolig. Nid yw effaith toriadau gan y Llywodraeth Ganolog yn wybyddus eto. O ran cam-drin cyffuriau, cafwyd adroddiadau fod pobl ifanc yn defnyddio cannabis. Mae'r Heddlu yn gwneud y rhieni'n ymwybodol o hyn ac yn targedu gwahanol leoliadau ar wahanol adegau o ran cyffuriau Dosbarth A a B. Mae nifer y lladradau'n parhau'n isel – cafodd dyn ifanc ei gyhuddo yn Llys y Goron yr Wyddgrug yn ddiweddar. Mae digwyddiadau cymunedol yn cael eu rheoli'n dda – nid oes unrhyw broblemau â digwyddiadau a gynhelir yn Rhuthun. Diolchwyd iddo gan y Maer.

116. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

29/10 Ymweld â Mrs Mary Owen, Trem y Foel. Rhuthun ar achlysur ei phen-blwydd yn 100 oed
31/10 Ymweld â menter golchi ceir Sgowtiaid/Cubs Rhuthun a'r Gwasanaeth Tân yn yr Orsaf Dân
01/11 Gwasanaeth Dinesig – Maer Caerwys
03/11 Digwyddiad twristiaeth – Springs, Llanrhaeadr
04/11 Cyfarfod â Heddlu Gogledd Cymru – Gorsaf Heddlu Rhuthun
04/11 Cyfarfod Ymlaen Rhuthun
08/11 Sul Coffa
09/11 Pwyllgor Archwilio Ariannol
10/11 Tîm y Dref
11/11 Y Gofeb – coffadwriaeth Dydd y Cadoediad
11/11 Cyfarfod Ymlaen Rhuthun – trefniadau dathliadau'r Nadolig
11/11 Fforwm Pobl dros 50 oed – Llys Erw
12/11 Cyfarfod Blynyddol Age Connects – Eirianfa, Dinbych
13/11 Noson Elusennol y Maer – Clwb y Dyffryn
18/11 Cyflwyniad ymgynghoriad cyhoeddus - Awelon
21/11 Cystadleuaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru – Ysgol Brynhyfryd

117. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. James Bryan Gŵyl Rhuthun, Sul Coffa, Noson Elusennol y Maer

Cyng. Elisabeth Culshaw	Cyfarfod Blynyddol Canolfan Awelon, Sul Coffa
Cyng. Ken Hawkins	Sul Coffa, Noson Elusennol y Maer, Ymgynghoriad CSDd yn Awelon
Cyng. Menna Jones	Llys Marchan, Ymgynghoriad CSDd yn Awelon
Cyng. Ian Lewney	Siambr Fasnach x 2, Sul Coffa, Noson Elusennol y Maer, Marchnad Rhuthun
Cyng. Robert Owen-Ellis	Sesiynau Banc Bwyd x 4, Sul Coffa, Noson Elusennol y Maer, Ymgynghoriad CSDd yn Awelon, cyfarfod Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ysgol Pen Barras
Cyng. Geraint Woolford	Fforwm Twristiaeth Bryniau Clwyd, Cyfarfod â Heddlu Gogledd Cymru, cyfarfod â Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos, agor siôp elusen Cymdeithas y Plant, noson tân gwyllt yng Nghanolfan Llanfwrog, Sul Coffa, Pwyllgor Archwilio Ariannol, Rali GB, Cyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos, Noson Elusennol y Maer, Ymgynghoriad CSDd yn Awelon

118. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

PENDERFYNWYD*: yn amodol ar gynnwys fod y Cyng. Menna Jones wedi datgan diddordeb yng Nghofnod Rhif 101 Cais am Gymorth Ariannol – (b) Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch ynghylch Drysau Agored, a chwblhau y Datganiad perthnasol, dylid cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2015 fel cofnod cywir.*

119. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

120. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2015.
PENDERFYNWYD*: derbyn y cofnodion.*

121. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2015.
PENDERFYNWYD*: derbyn y cofnodion.*

122. IS-BWYLLGOR ARCHWILIO ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau drefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod yr Is-bwyllgor yma. Aelodaeth: Cyngr. Elisabeth Culshaw, June Derry, Menna Jones ynghyd a'r Maer a'r Dirprwy Faer.
PENDERFYNWYD*: bod y cyfarfod i'w gynnal yn dilyn y cyfarfodd Pwyllgorau nesaf.*

123. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) SEFYDLIAD CASTELL RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref neges e-bost gan Phil Ebbrell, Pensaer Cadwraeth, Cyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD*: gofyn i gynrychiolydd o'r Sefydliad ddod i gyfarfod i ddarparu rhagor o fanylion.*

124. CYNGOR SIR DDINBYCH – GWASANAETHAU BWS

Cynghorwyd yr aelodau am yr ymgynghoriad cyfredol ynghylch newidiadau posibl yn y dyfodol. Gofynnodd y Cynghorwyr Elisabeth Culshaw, Ken Hawkins a Menna Jones am gopi papur o'r dogfennau ymgynghori. Rhaid cyflwyno sylwadau erbyn 12 Rhagfyr 2015.

125. CYNGOR SIR DDINBYCH – DYFODOL GWASANAETHAU GOFAL Y CYNGOR

Cynghorwyd yr aelodau ynghylch yr ymgynghoriad uchod, yn cynnwys ymgynghori yn benodol ar opsiynau ar gyfer dyfodol cartref gofal a chanolfan gofal dydd Awelon yn Rhuthun. Hysbysodd y Cyng. Bobby Feeley y cynghorwyr fod y dyddiad cau ar gyfer sylwadau wedi ei ymestyn i 24 Ionawr 2016. Gofynnwyd i'r aelodau anfon eu barn/sylwadau at Glerc y Dref er mwyn cyflwyno ymateb ar ran Cyngor Tref Rhuthun.

126. CYNLLUN CYMUNED LEOL TESCO

Darparwyd manylion am y cynllun uchod, i'w cael yn:
http://www.groundwork.org.uk/sites/tescocommunityscheme
***PENDERFYNWYD**: derbyn y manylion.*

127. MYNWENT LLANRHYDD

Cyflwynodd Clerc y Dref ddiweddariad i'r aelodau nad oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig. Gofynnodd y Cyng. Robert Owen-Ellis lle yn union y byddai'r stribed tir ychwanegol.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y diweddariad.*

128. TREFNIADAU CYFIEITHU

Darllenodd Clerc y Dref neges e-bost oddi wrth Mrs Marian Rees, yn datgan y byddai'n darparu'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Cyngor Tref o fis Ionawr 2016 ymlaen.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r wybodaeth.*

129. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31ain Hydref 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

130. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

D.U.	B.T.	Gwasanaeth band eang	*	69.00
806	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
807	Inland Revenue	Treth ac Yswiriant Gwladol		199.11
808	Royal British Legion	Cyfraniad blynyddol		50.00
809	Dafydd Williams	Sul Coffa – te / coffi / bisgedi		12.76
810	Rick Parr	System sain ar gyfer Sul Coffa		80.00
811	The Don Photography	Hawlfraint delwedd – cerdyn Nadolig		50.00
812	Dafydd Williams	Engrafu cwpanau		27.38
813	Ground Control Limited	Gwrych y Llwybr Celf Cymunedol ar Stryd y Farchnad – tocio	*	258.00
814	Sandra Williams	Cyfieithu cynnwys gwefan Rhuthun	*	561.00
815	Sandra Williams	Cyfieithu 'Dyletswyddau Clerc y Dref'	*	75.56
816	Anne Roberts	Lwfans y Maer (cyfran derfynol)		600.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £632.81)

131. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau Dydd Llun, 21 Rhagfyr 2015 fel dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.*